

Gwrandawriad cyn penodi

Yr ymgeisydd a ffafrir ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg

Hydref 2022

1. Cyflwyniad

Gwrandawriadau cyn penodi

1. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amrywiaeth o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae'r penodiadau hyn yn uchel eu proffil ac yn gyfle i lunio a llywio llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl Cymru yn eu defnyddio. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penodiadau cyhoeddus rheoleiddiedig yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn gyfrifol am roi sicrwydd annibynnol bod penodiadau yn cydymffurfio â'r Cod.

2. Mae Gweinidogion Cymru a'r Senedd wedi cytuno y bydd pwyllgorau yn y Senedd yn cynnal gwaith craffu cyn penodi ar benodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu a gaiff effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y drefn o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno. Yn gyffredinol, ffurf y gwaith craffu cyn penodi yw gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffafrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, mater i'r pwyllgor perthnasol yw penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.



3. Mae rhestr o'r penodiadau gweinidogol a all fod yn destun gwrandawriadau cyn penodi wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Mae Comisiynydd y Gymraeg ar y rhestr honno.

Comisiynydd y Gymraeg

4. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") wedi cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, mae wedi creu system reoleiddio newydd safonau'r Gymraeg, ac mae wedi creu rôl Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"). Mae'r Comisiynydd yn cael benodi gan y Prif Weinidog.¹ Penodir y Comisiynydd am gyfnod o saith mlynedd na ellir ei adnewyddu.

5. Nodir pwerau a chyfrifoldebau'r Comisiynydd yn y Mesur. Prif nod statudol Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Comisiynydd weithio tuag at gynyddu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r iaith. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi sylw i:

- statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru;
- dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy safonau'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o orfodi'r dyletswyddau hynny;
- yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- yr egwyddor y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.²

6. Mae gan y Comisiynydd gynllun strategol ar gyfer y cyfnod 2022 i 2025 sy'n amlinellu gweledigaeth a gwerthoedd, pwerau statudol ac amcanion strategol y swyddfa.

7. Mae gwybodaeth fanwl am y rôl, ynghyd â manyleb y person ar gyfer y rôl, ar gael yn y pecyn gwybodaeth a gyhoeddwyd ar gyfer ymgeiswyr am y swydd ym mis Mai 2022.

¹ Er mai'r Prif Weinidog sy'n penodi'r Comisiynydd, cyfrifoldeb Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yw'r Gymraeg (gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg).

² Comisiynydd y Gymraeg, Amcanion strategol a'n gweledigaeth, fel ar 11.10.22.

2. Y broses recriwtio

8. Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg ei hysbysebu ar wefannau Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet rhwng 6 Mai a 17 Mehefin 2022.

9. Anfonodd Llywodraeth Cymru fanylion am y penodiad trwy restrau rhanddeiliaid a gedwir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus, a chyhoeddodd y swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwefan Swyddfa Cabinet y DU. Cafodd y swydd wag ei hyrwyddo ar Safle Swyddi (ar-lein yn unig), Golwg 360 (ar-lein yn unig), a Lleol (ar-lein yn unig).

10. Aelodau'r Panel Cyngori ar Asesu oedd:

- Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg, Llywodraeth Cymru;
- Craig Stephenson, Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel;
- Rhian Huws-Williams, Aelod Panel Annibynnol;
- Delyth Jewell AS³.

11. Cafwyd cyfanswm o naw cais am y rôl. Cynhaliwyd y cyfarfod sifftio ar 7 Gorffennaf 2022 ac argymhellwyd pedwar ymgeisydd i gael cyfweiliad. Roedd y Panel Cyngori ar Asesu o'r farn bod un ymgeisydd y gellir ei benodi yn dilyn cyfweiliadau ar 23 Medi 2022.

3. Yr ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru

12. Yr ymgeisydd a ffafrir gan y Prif Weinidog ar gyfer swydd Comisiynydd y Gymraeg yw Efa Gruffudd Jones.

13. Yn ôl gwybodaeth a ddarparwyd gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, Efa Gruffudd Jones yw'r ymgeisydd a ffafrir gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg hefyd. Dywedodd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yr ymgynghorwyd â'r Gweinidog ynghylch y disgrifiad swydd a manyleb y person, ac iddo gael diweddariadau drwy gydol y broses, a hynny am fod ei gylch gwaith yn cynnwys gwaith y Comisiynydd.

³ Cymerodd Delyth Jewell AS ran yn y sifftio ond bu'n rhaid iddi dynnu'n ôl o'r panel cyfweld. Cymerwyd ei lle gan Heledd Fychan AS.

14. Ar hyn o bryd, Efa Gruffudd Jones yw Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sef y corff a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu arweiniad strategol ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion yng Nghymru. Cyn hynny, hi oedd Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru (2004-2015).

4. Y gwrandawriad cyn penodi

Cyn y gwrandawriad

15. Cyn y gwrandawriad cyn penodi, cafodd y Pwyllgor bapur briffio gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a eglurodd yn gryno'r broses recriwtio a nodi data amrywiaeth y rhai a ymgeisiodd am y swydd, ynghyd â chopi o'r pecyn gwybodaeth a ddarparwyd i ymgeiswyr am y swydd. Hefyd, cafodd ffurflen gais, CV a datganiad personol yr ymgeisydd a ffafir eu rhannu'n breifat â'r Pwyllgor.

16. Gofynnodd y Pwyllgor i'r ymgeisydd a ffafir gwblhau holiadur byr cyn y gwrandawriad, er mwyn llywio cwestiynau'r Aelodau.

17. Cymerodd Delyth Jewell AS, fel Cadeirydd y Pwyllgor, ran yn y broses o sifftio'r ymgeiswyr a chymerodd Heledd Fychan AS, fel aelod o'r Pwyllgor, ran yn y cyfweiliadau. O ystyried eu rolau yn y broses, gwnaethant absenoli eu hunain o holl drafodion y Pwyllgor yn ymwneud â'r broses cyn penodi hon.

Y gwrandawriad

18. Cynhaliwyd y gwrandawriad ddydd Iau 13 Hydref 2022. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i'r ymgeisydd a ffafir ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni rôl Comisiynydd y Gymraeg. Edrychodd y cwestiynau hyn yn fanylach ar y wybodaeth a ddarparwyd ganddi yn ei holiadur ysgrifenedig, gan ymdrin â materion sy'n cynnwys:

- yr hyn a'i hysgogodd i wneud cais am rôl y Comisiynydd;
- ei gwybodaeth a'i phrofiad;
- mesur llwyddiant ei gwaith yn y dyfodol fel Comisiynydd;
- cydbwysu ei rôl fel eiriolwr dros y Gymraeg ac fel rheolydd;
- annibyniaeth y Comisiynydd ar Lywodraeth Cymru a chraffu.

19. Mae trawsgrifiad llawn o'r gwrandawriad ar gael ar-lein.

5. Safbwynt y Pwyllgor

20. Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd, rôl y Pwyllgor yw nodi ei farn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffafir gan Lywodraeth Cymru.

21. Yn seiliedig ar ei hatebion ysgrifenedig i holiadur y Pwyllgor a'i hymatebion yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn fodlon cymeradwyo'r ymgeisydd a ffafir gan Lywodraeth Cymru, sef Efa Gruffudd Jones, ar gyfer rôl Comisiynydd y Gymraeg.

22. Mae'r Pwyllgor yn croesawu datganiad yr ymgeisydd a ffafir mai cyfrannu at y gwaith o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fyddai ei phrif flaenoriaeth, ac y byddai'n ymrwymo i nodi dangosyddion ystyrllon ac effeithiol i fesur cynnydd yn y maes hwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y ffaith bod y Comisiynydd yn cael ei benodi i wasanaethu pob grŵp oedran, ond mae ei nod o gynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg hefyd i'w groesawu. Os caiff ei phenodi, mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at ddwyn yr ymgeisydd a ffafir i gyfrif mewn perthynas â'i swyddogaeth a'i blaenoriaethau fel Comisiynydd. Mae un Aelod, Sioned Williams AS⁴, hefyd yn dymuno nodi swyddogaethau'r Comisiynydd mewn perthynas â datblygu a diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg.

23. Mae'r Pwyllgor yn nodi profiad a gwybodaeth broffesiynol berthnasol a hirsefydlog yr ymgeisydd a ffafir. Mae'n croesawu ei bwriad, os caiff ei phenodi, i dynnu ar y profiad a'r wybodaeth hon er mwyn arfer swyddogaethau'r Comisiynydd mewn modd cydweithredol a chefnogol, ond cadarn hefyd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod swyddogaethau statudol y Comisiynydd fel eiriolwr ac fel rheoleiddiwr, a phwysigrwydd sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y rhain. Bydd yn monitro'r agweddau hyn yn agos wrth graffu ar waith y Comisiynydd, a gwaith swyddfa'r Comisiynydd, yn ystod y Senedd hon.

24. Yn amodol ar iddi gael ei phenodi gan y Prif Weinidog, mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at wahodd yr ymgeisydd a ffafir ar gyfer rôl y Comisiynydd i fod yn bresennol yng ngwanwyn 2023 fel rhan o'r rhaglen barhaus o graffu ar waith comisiynwyr statudol a phenodiadau cyhoeddus sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.

⁴ Cymerodd Sioned Williams AS ran yn y gwrandawriad cyn penodi yn dirprwyo ar ran Plaid Cymru, gan fod Delyth Jewell AS a Heledd Fychan AS ill dwy wedi bod yn absennol o'r trafodion am y rhesymau a geir ym mharagraff 17 o'r adroddiad hwn.
